Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Gymuned Bodorgan**
**Bodorgan**
**Ynys Môn**
**LL62 5AB**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gymuned Bodorgan wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Chwefror 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella medrau rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o gynlluniau gwaith yr ysgol gan sicrhau cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau rhifedd sylfaenol disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas, a gallant drin rhifau a defnyddio unedau mesur yn gywir wrth gyfrifo perimedr siapiau syml. Maent yn dechrau casglu a phrosesu data yn effeithiol ac mae eu dealltwriaeth o wahanol graffiau yn datblygu'n briodol. Maent bellach yn cymhwyso'r wybodaeth a'r cysyniadau hyn yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth lunio graffiau sy'n seiliedig ar ganlyniadau gwyddonol a dadansoddi gwybodaeth o gyfrifiad Malltraeth 1891 yn eu gwaith hanes. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio strategaethau rhifedd yn fwy rheolaidd ac i safon dderbyniol er mwyn datrys problemau sy'n berthnasol i'w thema gyfredol. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd wrth gyfrifo faint o fwyd a diod fydd ei angen ar is-gogydd y Mimosa wrth drefnu bwyd am wyth wythnos ar gyfer criw'r llong.

Mae athrawon wedi adnabod pa elfennau o rifedd sy'n cael eu datblygu ym mhob tymor. Sicrheir cyfleoedd pwrpasol yn y cynlluniau i ddatblygu'r medrau hyn mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr yr ysgol wedi cychwyn monitro hyn yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod holl agweddau rhifedd o fewn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu gweithredu'n llawn. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan gweld effaith hyn ar ddeilliannau'r disgyblion.

### Argymhelliad 2: Codi safonau ysgrifennu estynedig y disgyblion

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae cynlluniau athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau angenrheidiol er mwyn creu darnau o waith ysgrifennu estynedig. Mae cynlluniau ar gyfer y gwersi iaith yn fanwl. Maent yn rhoi sylw haeddiannol i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o wahanol ffurfiau ysgrifenedig yn dda, gan gynnwys portreadau, ailadrodd storïau, dyddiaduron ac ysgrifennu ymson.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu syniadau'n ddiddorol, gan amrywio eu brawddegau a defnyddio ffurf gryno'r ferf i gyfoethogi eu gwaith. Enghraifft o hyn yw portread o gymeriad stori'r dosbarth ac wrth ailadrodd stori Santes Dwynwen. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn fwy cyson ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ysgol yn sicrhau profiadau cyfoethog yn ymwneud â'r thema, er enghraifft trwy ymweliadau i Ynys Llanddwyn a chroesawu ffermwraig i'r ysgol. Mae'r profiadau hyn yn ysgogi'r disgyblion i ysgrifennu darnau estynedig diddorol, er enghraifft dyddiadur y ffermwraig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio'r medrau llythrennedd o'u gwersi iaith yn effeithiol mewn agweddau eraill o'r cwricwlwm. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith. At ei gilydd, maent yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig ac yn dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o atalnodi a pharagraffu. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad i'r Bala, maent wedi llunio araith ar gyfer Thomas Charles gerbron y Feibl Gymdeithas yn Llundain. Fel rhan o waith thema ar Batagonia, cynhyrchwyd cofnod effeithiol a diddorol o'r daith ar fwrdd llong y Mimosa trwy lygaid y capten. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn defnyddio geirfa a strwythur brawddegau yn ddigon effeithiol yn y ddwy iaith.

**Argymhelliad 3: Gwella gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r defnydd o daflenni gwaith parod, a oedd yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, wedi lleihau'n sylweddol. Bellach, mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd cynyddol ar gyfer datblygu medrau dysgu annibynnol o fewn y dosbarth. O ganlyniad, maent yn llai dibynnol ar gefnogaeth staff ar draws yr ysgol.

Mae staff wedi gweithio'n llwyddiannus gyda staff ysgolion eraill i greu ardaloedd dysgu pwrpasol sy'n hybu annibyniaeth y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn hyn, mae disgyblion yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn fwy annibynnol i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n ffocysu'n ddigon cyson ar y dasg.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n briodol at gynllunio themâu ar ddechrau'r tymor trwy gynnig syniadau gwerthfawr. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn dechrau gwneud penderfyniadau dros beth, a sut, y maent yn dysgu. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dechrau llunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain, sydd ar y cyfan yn berthnasol i'r dasg. Maent hefyd yn gosod eu targedau llythrennedd a rhifedd eu hunain, sy'n datblygu eu hannibyniaeth yn briodol. Mae disgyblion yn derbyn adborth defnyddiol gan athrawon ar ba mor dda maent yn gwneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae gallu'r disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion yn datblygu'n briodol.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi cyflwyno trefniadau cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm er mwyn bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae cynlluniau tymor hir a chanolig yn dangos bod athrawon wedi mapio'r medrau'n briodol. Mae hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad o un flwyddyn ysgol i'r nesaf. Mae athrawon yn cynllunio cyfleodd gwerthfawr i ddatblygu medrau disgyblion mewn gwersi iaith a mathemateg. Maent hefyd yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion gaffael y medrau hyn yn fwy rheolaidd ar draws meysydd y cwricwlwm. Bellach, mae digon o gyswllt rhwng medrau ysgrifennu y mae disgyblion yn eu caffael mewn gwersi iaith a'r medrau a ddatblygir ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safon y gwaith yn llyfrau'r disgyblion.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn derbyn profiadau dysgu buddiol er mwyn datblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn cyfrifo gwerthiant ac elw yn deillio o werthu cardiau yn ffair yr ysgol. Mae hyn yn datblygu medrau meddwl a rhifedd y disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol adnoddau addas ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r (TGCh) disgyblion. Mae cynlluniau tymor byr yr athrawon yn nodi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau'n briodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dechrau defnyddio'r medrau cyfathrebu yn dda mewn ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i wybodaeth ar y we er mwyn creu pamffled am Gymru a Phatagonia a chynhyrchu dwy daflen wybodaeth yn cymharu anifeiliaid o'r ddwy wlad. Fodd bynnag, nid oes digon o amser wedi bod i ddatblygu'r ystod eang o fedrau sydd eu hangen fel gwaith ar fasdata a thaenlenni.

**Argymhelliad 5: Gwella'r addysgu er mwyn sicrhau her briodol i bob disgybl**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r berthynas waith dda sydd rhwng y staff a'r plant yn hwyluso'r dysgu ymhob dosbarth. Mae athrawon yn sicrhau ystod eang o brofiadau a gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio gwersi sy'n cynnwys amcanion clir, meini prawf llwyddiant addas a gwaith pwrpasol ar gyfer disgyblion o bob gallu. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo. Mae athrawon yn gwerthuso eu gwersi'n effeithiol er mwyn cynllunio gweithgareddau nesaf i'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau dilyniant clir yn y dysgu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn dadansoddi canlyniadau profion mewnol yn effeithiol er mwyn darparu cymorth ychwanegol i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio system olrhain cynnydd yn fuddiol er mwyn targedu disgyblion a darparu cefnogaeth fwy penodol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r athrawon yn darparu gwaith mwy ymestynnol i'r disgyblion sydd, ar y cyfan, yn ymateb yn fwy addas i'w gallu. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar safonau cyrhaeddiad llawer o'r disgyblion drwy'r ysgol. Er hyn, nid oes digon o her bob tro i ddisgyblion wrth weithio'n annibynnol yn y ddarpariaeth barhaus yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae adroddiadau monitro'r pennaeth strategol yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella o ran yr addysgu yn llwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd gwerthfawr o ystod eang o dystiolaeth hunanarfarnu, gan gynnwys craffu ar lyfrau, monitro gwersi a rheoli perfformiad, er mwyn gwella'r addysgu. Mae staff hefyd yn trafod safonau a dulliau addysgu yn fuddiol mewn cyfarfodydd mewnol er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant.

**Argymhelliad 6: Datblygu rôl y llywodraethwyr fel arweinwyr strategol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae'n adnabod cymuned yr ysgol yn dda. Mae'r corff yn cwrdd yn rheolaidd ac mae is-bwyllgorau perthnasol wedi eu sefydlu. Mae aelodau o'r is-bwyllgorau yn adrodd yn ôl eu canfyddiadau i'r corff llawn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr drosolwg cynhwysfawr o waith yr ysgol. Ers yr arolygiad craidd, mae aelodaeth y corff llywodraethol wedi newid yn sylweddol. Mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd hefyd yn newydd i'r rôl. Mae llawer o'r llywodraethwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant penodol ac wedi derbyn cefnogaeth werthfawr gan y pennaeth strategol a chymorth allanol. Yn ogystal, maent wedi sefydlu perthynas waith fuddiol gyda chorff llywodraethol ysgol arall y pennaeth strategol er mwyn rhannu arfer dda a chryfhau eu dealltwriaeth o'u rolau. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth effeithiol o'u dyletswyddau fel arweinwyr yr ysgol ac yn gweithredu'n gydwybodol.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth strategol am gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl arolygiad. Mae hyn yn rhoi trosolwg gwerthfawr iddynt o fywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae'r pennaeth wedi sefydlu amserlen ffurfiol i helpu'r llywodraethwyr gyfrannu'n ddefnyddiol tuag at y broses hunanarfarnu. Mae hyn yn sicrhau bod eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella yn datblygu'n dda. Drwy nifer o weithgareddau hunanarfarnu defnyddiol, er enghraifft craffu ar lyfrau disgyblion ac wrth arsylwi gwersi, maent yn arfarnu gwaith yr ysgol yn briodol. Er hyn, nid yw eu dealltwriaeth o beth sy'n gwneud safonau da yng ngwaith disgyblion yn ddigon cadarn eto. Mae llywodraethwyr yn defnyddio deilliannau o'r gweithgareddau monitro er mwyn herio perfformiad yr ysgol yn addas ac i gynllunio'n fwriadus ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae eu rôl fel ffrind beirniadol i'r ysgol yn datblygu'n effeithiol.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol yn cael eu monitro'n effeithiol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi sefydlu amserlen bwrpasol sy'n canolbwyntio'n briodol ar fonitro blaenoriaethau'r cynllun gwella ôl arolygiad. Mae'r pennaeth strategol a'r is-banel safonau yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r cynllun yn rheolaidd, gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant yn synhwyrol. Maent yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn dda, gan gynnwys data perfformaid, arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau'n rheolaidd. Maent yn ailymweld ag argymhellion yr adroddiadau monitro yn rheolaidd er mwyn mesur cynnydd, er enghraifft drwy sicrhau mwy o gyfleoedd i

ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau monitro gan swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm yn cefnogi'r broses hon ac yn cynnig barn allanol gwerthfawr. O ganlyniad, mae'r ysgol yn monitro blaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol yn effeithiol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar welliannau yn y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae gan bob aelod o staff ymwybyddiaeth gadarn o'r cynllun gwella ysgol ac yn gweithredu ar gamau sy'n berthnasol iddynt.

Mae arweinwyr yn crynhoi eu harfarniadau mewn adroddiadau clir a phwrpasol. Mae'r adroddiadau hyn yn sicrhau bod staff a llywodraethwyr yn cael darlun cyfredol o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella ôl arolygiad. Mae cyfarfodydd staff, dan arweiniad strategol y pennaeth, yn canolbwyntio'n dda ar y cynllun gwella ac yn rhoi ffocws clir ar godi safonau. O ganlyniad, mae rôl yr athrawon o ran gweithredu'r camau ar gyfer gwelliant ac ysgrifennu adroddiadau byr ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn datblygu'n effeithiol.

**Argymhelliad 8: Sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol o ran mynd i'r afael â baich gwaith athrawon**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r pennaeth strategol, sydd â gofal dros dro ers mis Medi, wedi sefydlu trefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli baich gwaith athrawon sydd yn bodloni gofynion statudol yn llawn. Mae hyn yn cynnwys amser digyswllt rheolaidd i athrawon er mwyn iddynt gynllunio a pharatoi gwersi yn ogystal â marcio ac asesu gwaith y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'u hamser digyswllt yn effeithiol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Bellach, mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad clir a phenodol ac mae'r pennaeth strategol wedi dosrannu cyfrifoldebau ymysg bob aelod o staff yn llwyddiannus. Mae hyn wedi llwyddo i fynd i'r afael â baich gwaith athrawon yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yr ysgol yn derbyn cyfleoedd priodol ar gyfer cwblhau eu gweithgareddau arwain a rheoli. O ganlyniad, maent yn defnyddio'u hamser yn effeithiol i oruchwylio a monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn yr argymhellion yn ogystal â chynllunio ar gyfer gwelliant. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae arweinwyr wedi creu trosolwg o fedrau TGCh yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.